Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Ty'r Cymry
# 11 Heol Gordon
# Roath
# Caerdydd
# CF24 3AJ

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/07/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Tŷ'r Cymry wedi`i leoli ar lawr gwaelod tŷ teras mawr yn ardal y Rhath, Caerdydd. Mae wedi`i hen sefydlu yn yr ardal ac yn gwasanaethu`r ardal hon o'r ddinas. Mae'n leoliad cyfrwng Cymraeg ac yn aelod cofrestredig o`r Mudiad Meithrin.

Mae`r lleoliad yn cael ei redeg gan bwyllgor gwirfoddol ac mae'n ddarparwr addysg fel aelod o Bartneriaeth Gofal Plant a Datblygiad Blynydoedd Cynnar Caerdydd.

Mae'r lleoliad yn darparu addysg ar bum bore'r wythnos rhwng 9 y.b a 12 hanner dydd, yn ystod y tymor ysgol. Mae hefyd yn darparu clwb brecwast o 8.30 y.b a chinio a goruchwyliaeth ar gyfer plant sy'n mynd i'r ysgol am hanner diwrnod. Mae`r plant yn mynychu o ddwy a hanner oed ac yn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ar gyfer uchafswm o 18 o blant ar unrhyw un adeg. Ar hyn o bryd mae 24 ar y gofrestr. Yn ystod yr arolygiad, roedd 13 o blant tair oed yn bresennol, gyda 7 yn cael eu hariannu.

Mae lleiafrif o blant yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith, gyda tua hanner yn dod o gartrefi lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg. Daw`r gweddill o gartrefi gyda`r Saesneg fel iaith y cartref. Nid oes unrhyw blant yn bresennol ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd am bum mis (Ionawr 2015) ac mae hi'n cael ei chynorthwyo gan ddirprwy hirsefydlog a chynorthwy-ydd.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Estyn yn 2009 ac yn 2015 gan AGGCC.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae`r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn y lleoliad ac yn cyflawni`n dda
- Mae gan y rhan fwyaf o blant fedrau iaith Cymraeg sydd wedi`i datblygu`n dda
- Mae ansawdd y berthynas rhwng staff a phlant yn dda iawn ac yn seiliedig ar gyd-hoffter a pharch
- Mae ethos hapus a chroesawgar yno ac mae`r plant yn ymgartrefu`n gyflym
- Mae trefniadau effeithiol ar waith i annog plant i fwyta ac yfed yn iach ac i gymryd rhan mewn ymarfer corff rheolaidd
- Mae`r lleoliad yn gymuned ofalgar a chefnogol lle mae`r holl blant yn derbyn gofal da

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella`r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae`r arweinydd yn darparu synnwyr clir o ddiben i waith y lleoliad
- Mae`r ymarferwyr yn gweithio`n effeithiol fel tîm
- Mae`r ymarferwyr wedi eu hymrwymo`n gryf i ddtablygiad a lles y plant
- Mae`r pwyllgor rheoli`n weithgar ac yn cefnogi`r lleoliad yn gryf
- Mae`n darparu gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Datblygu gweithdrefnau asesu sy`n nodi datblygiad medrau`r plant yn glir ac yn amlygu`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant.

A2 Cynllunio cyfleoedd dysgu sy`n cyfateb yn dda â gallu`r plant a`u cyflawniad blaenorol ac i ddarparu`r plant â her digonol.

A3 Cynyddu`r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg a gwybodaeth (TGCH) y plant

A4 Adolygu`r trefniadau ar gyfer amser byrbryd.

A5 Creu cynllun datblygu sy`n nodi sut i fynd i afael â gwelliannau.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae`r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu hamser yn y lleoliad ac yn cyflawni'n dda. Mae bron pob plentyn yn gwrando'n astud ar storïau ac yn cofio dysgu blaenorol. Er enghraifft, maen nhw`n cofio bod lindys yn troi'n ieir bach yr haf wrth iddynt dyfu a`u bod yn bwyta bwydydd.

Mae bron pob plentyn yn deall cyfarwyddiadau syml yn y Gymraeg ac yn ymateb yn gadarnhaol, er enghraifft, wrth dacluso a pharatoi ar gyfer amser cylch. Mae gan lawer o blant eirfa dda sy`n datblygu ac yn gallu cyfathrebu'n hyderus gyda'i gilydd ac oedolion. Mae tua hanner y plant yn gallu cyfathrebu`n helaeth yn yr iaith Gymraeg.

Mae mwyafrif y plant yn adnabod eu henw mewn print fel wrth gofrestru eu presenoldeb. Mae ychydig o blant yn mwynhau edrych ar lyfrau stori gydag oedolyn ac maen nhw`n dechrau dilyn y geiriau. Mae'r plant hyn yn trin llyfrau'n ofalus ac yn briodol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymarfer sgiliau ysgrifennu cynnar yn briodol gan ddefnyddio creonau, sialc a phensiliau lliw. Roedd y mwyafrif yn deall rhai o bwrpasau ysgrifennu fel gwneud nodiadau yn eu siop deganau.

Mae bron pob plentyn yn gallu cyfrif yn weddol gywir, fel wrth gyfrif y nifer o blant yn bresennol yn ystod cofrestru. Mae ychydig yn gallu ymgymryd ag adio syml, fel deg adio un yw un deg un. Mae llawer o blant yn gallu didoli gwrthrychau yn ôl lliw a siâp. Mae gan y plant yma eirfa fathemategol sy`n datblygu fel "gwag a llawn", fel wrth chwarae gyda dŵr. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio eu medrau rhif yn briodol mewn gwahanol weithgareddau ar draws y cwricwlwm.

Nid oes digon o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae`r rhan fwyaf o blant yn defnyddio amrywiaeth o offer bach gyda rhywfaint o reolaeth, fel wrth ludo siapiau neu ddefnyddio siswrn i dorri siapiau papur. Mae pob plentyn yn trin brwsys paent yn bwrpasol ac yn cymysgu paent hylif. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau corfforol, fel ar eu beiciau tair olwyn, gan ddangos rheolaeth dda.

Mae sgiliau personol a chymdeithasol pob plentyn yn datblygu'n dda. Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn annog y plant i rannu a pharchu ei gilydd ac mae hyn yn cyfrannu'n dda at y berthynas gytûn sy'n bodoli yn y lleoliad

**Lles: Da**

Mae'r holl blant yn mwynhau dod i'r lleoliad ac maen nhw`n cymryd rhan yn gyflym yn y gweithgareddau sy`n cael eu gosod ar eu cyfer. Mae`r ymarferwyr yn cyfarch y plant ac mae`r berthynas rhyngddynt yn dda iawn. Mae`r plant yn hapus i weld eu

ffrindiau ac yn awyddus i chwarae gyda nhw ac i rannu teganau ac adnoddau. Mae`r plant yn hyderus, yn annibynnol ac yn frwdfrydig i gymryd rhan.

Mewn sesiynau grŵp, fel amser cylch, mae`r plant yn awyddus i ateb cwestiynau ac i gyfrannu eu syniadau eu hunain. Mae`r holl blant yn canu caneuon a rhigymau yn frwdfrydig yn y Gymraeg, yn enwedig caneuon actol. Mae pob plentyn yn dangos agwedd ddymunol ac yn ymddwyn yn dda.

Mae mwyafrif y plant yn deall pwysigrwydd golchi eu dwylo fel rhan o hylendid personol ac yn gwybod pa mor bwysig yw bwyta ac yfed yn synhwyrol. Mae'r holl blant yn mwynhau cymryd rhan mewn ymarfer corff rheolaidd ac mae llawer yn deall pwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd er mwyn cadw'n iach.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae`r ymarferwyr yn cynllunio ar y cyd ac yn unol â gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae dull thematig yn cael ei ddefnyddio a safbwyntiau a syniadau`r plant yn cael eu hymgorffori. Mae hyn yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyfateb â diddordebau'r plant.

Mae`r cynllunio wythnosol yn darparu cyfleoedd priodol i ddatblygu sgiliau cyfathrebu`r plant. Mae medrau rhifedd y plant o gyfrif yn cael eu datblygu'n briodol yn ogystal â sgiliau ehangach fel gwybodaeth a dealltwriaeth o bethau byw. Mae eu medrau creadigol a chorfforol yn cael eu cynnwys o fewn ystod o weithgareddau diddorol. Mae cyfleoedd annigonol i`r plant ddatblygu eu sgiliau TGCh.

Ar y cyfan, fodd bynnag, nid yw'r cynllunio'n cynnwys gwaith sydd wedi`i wahaniaethu'n ddigonol ac sy`n cyfateb yn dda i allu`r plant a`u cyrhaeddiad blaenorol. Nid yw`r cynllunio`n dangos yn glir sut mae gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau`r plant yn cael eu datblygu'n systematig.

Mae hwn yn leoliad cyfrwng Cymraeg ac mae`r ymarferwyr yn ymdrechu`n dda i sgwrsio gyda'r plant yn y Gymraeg. Mae`r ymarferwyr yn siaradwyr Cymraeg naturiol a rhugl sy`n sgwrsio â'i gilydd yn yr iaith ac mae hyn yn pwysleisio i blant fod y Gymraeg yn iaith fyw. Mae`r staff yn rhoi digon o gyfleoedd i blant i drafod eu gweithgareddau, canu caneuon a rhigymau Cymraeg a gwrando ar storïau yn y Gymraeg. Mae amser cylch yn darparu cyfleoedd i blant ateb cwestiynau ac i atgyfnerthu eu geirfa Gymraeg sy'n datblygu. Mae'r lleoliad yn llwyddiannus iawn wrth ddatblygu a chyfoethogi iaith Cymraeg llafar y plant.

Mae cyfleoedd buddiol yn cael eu darparu ar gyfer y plant i ddysgu am draddodiadau a dathliadau Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi drwy wisgo i fyny a gwneud pice ar y maen. Mae Dydd Santes Dwynwen yn cael ei ddathlu drwy wneud cardiau. Caiff plant gyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau eraill drwy, er enghraifft astudio'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd dychmygus o`i safle trwy drefnu ymweliadau gwerth chweil, fel cyngerdd Nadolig y plant yn y ddinas. Mae ymweliadau hefyd i leoliadau glan môr o'r orsaf leol yn ogystal ag i'r parc lleol. Mae mentrau o'r fath yn ehangu profiadau`r plant yn briodol. Mae`r plant yn dysgu am dyfu hadau a'r angen i ofalu amdanynt trwy weithgareddau garddio. Mae`r plant hefyd yn gwneud compost o wastraff ac mae`r profiadau hyn yn cyfoethogi gwybodaeth a dealltwriaeth y plant am gynaliadwyedd.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr o'r Cyfnod Sylfaen ac yn darparu`r plant ag ystod eang o weithgareddau. Mae'r berthynas rhwng oedolion a phlant yn dda ac yn seiliedig ar hoffter a pharch. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb i'w hanghenion.

Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o'r plant ac yn rhoi cymorth priodol iddynt. Mae`r ymarferwyr yn fodelau rôl iaith da ac o ganlyniad mae`r plant yn datblygu geirfa Gymraeg dda. Mae cwestiynu yn cael ei ddefnyddio`n bwrpasol i ddatblygu medrau meddwl y plant.

Mae digon o gyfleoedd i blant ddewis gweithgareddau ac mae`r ymarferwyr yn sicrhau cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a gweithgareddau sy`n cael eu cyfeirio gan oedolion.

Mae cyfleoedd yn cael eu darparu i`r plant i blannu a thyfu ffrwythau a llysiau gan eu defnyddio`n hwyrach yn ystod amser byrbryd. Maen nhw`n sylweddoli pa mor bwysig yw ailgylchu ac mae deunyddiau gwastraff yn cael eu rhoi yn eu bin ailgylchu.

Mae`r sesiynau addysgu yn symud ymlaen ar gyflymder priodol ar y cyfan er bod plant o bryd i'w gilydd yn colli diddordeb wrth ymwneud â gweithgaredd sy`n mynd ymlaen yn rhy hir.

Mae asesu pwrpasol mewn cyfnod cynnar o ddatblygiad. Mae'r lleoliad yn cadw proffiliau plentyn unigol sy'n cynnwys lluniau anodedig sy`n disgrifio cyflawniadau'r plant. Mae'r proffiliau hyn yn rhoi darlun defnyddiol o gryfderau pob plentyn. Nid yw`r nodiadau, fodd bynnag, yn cyfeirio`n ddigonol at nodi datblygu sgiliau unigolion, yn enwedig sgiliau cyfathrebu a rhifedd plant. Nid ydynt chwaith yn rhoi arwydd clir o gynnydd plentyn nac yn tynnu sylw at y cam nesaf yn eu dysgu.

Nid yw asesu`n cael ei ddefnyddio`n effeithiol i gynllunio gweithgareddau sy'n atgyfnerthu ac ymestyn dysgu'r plant a`u herio.

Mewn trafodaeth, mae rhieni`n falch o'r cynnydd y mae eu plant yn ei wneud yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Adroddir bod y plant yn datblygu medrau cymdeithasol da yn ogystal â chymwysedd yn yr iaith Gymraeg.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi iechyd a lles plant. Mae`r trefniadau sefydlu yn sicrhau bod y plant yn ymgartrefu'n gyflym yn y lleoliad. Mae`r plant yn cyrraedd yn hapus ac yn cymryd rhan weithredol yn fuan yn y gweithgareddau sy`n cael eu gosod ar eu cyfer. Mae`r plant yn cael eu hannog yn briodol i fwyta'n iach, i

ofalu am eu hylendid personol ac i wneud ymarfer corff. Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau clir o'r plant ac mae strategaethau sy'n hybu ymddygiad da ar waith. Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu ymddygiad cymdeithasol cryf gan gynnwys gonestrwydd, tegwch, parch a gwerthfawrogiad o`r hyn sy`n gywir ac anghywir. Mae`r plant yn dod i adnabod yr angen i ofalu a helpu ei gilydd a datblygu ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a thraddodiadau.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd dysgu diogel. Mae'r drws ffrynt yn cael ei gloi bob amser, gan sicrhau nad oes unrhyw un yn medru gadael na dod i mewn yn ddirybudd. Mae'r tu allan yn hollol gaeedig ac mae`r plant sy'n defnyddio'r ardal yn cael eu goruchwylio bob amser. Mae'r staff wedi mynychu cyrsiau hyfforddi proffesiynol perthnasol ac maen nhw`n ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae asesiadau risg yn cael eu cwblhau yn briodol.

Nid oes unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol ar hyn o bryd. Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth glir o'r gweithdrefnau gofynnol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi iechyd a lles plant. Mae`r trefniadau sefydlu yn sicrhau bod y plant yn ymgartrefu'n gyflym yn y lleoliad. Mae`r plant yn cyrraedd yn hapus ac yn cymryd rhan weithredol yn fuan yn y gweithgareddau sy`n cael eu gosod ar eu cyfer. Mae`r plant yn cael eu hannog yn briodol i fwyta'n iach, i ofalu am eu hylendid personol ac i wneud ymarfer corff. Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau clir o'r plant ac mae strategaethau sy'n hybu ymddygiad da ar waith. Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu ymddygiad cymdeithasol cryf gan gynnwys gonestrwydd, tegwch, parch a gwerthfawrogiad o`r hyn sy`n gywir ac anghywir. Mae`r plant yn dod i adnabod yr angen i ofalu a helpu ei gilydd a datblygu ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a thraddodiadau.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd dysgu diogel. Mae'r drws ffrynt yn cael ei gloi bob amser, gan sicrhau nad oes unrhyw un yn medru gadael na dod i mewn yn ddirybudd. Mae'r tu allan yn hollol gaeedig ac mae`r plant sy'n defnyddio'r ardal yn cael eu goruchwylio bob amser. Mae'r staff wedi mynychu cyrsiau hyfforddi proffesiynol perthnasol ac maen nhw`n ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae asesiadau risg yn cael eu cwblhau yn briodol.

Nid oes unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol ar hyn o bryd. Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth glir o'r gweithdrefnau gofynnol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r lleoliad sy'n cynnwys rhoi sylw arbennig i ddatblygu'r iaith Gymraeg. Mae ei gweledigaeth yn cael ei gyfleu yn effeithiol i bawb sy'n ymwneud â'r lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol fel tîm ac yn dangos ymrwymiad cryf i ddarparu addysg gwerth chweil i'r plant. Drwy drafodaeth reolaidd a chydweithio agos mae`r staff wedi canolbwyntio ar sicrhau safonau uchel, yn enwedig wrth ddatblygu sgiliau`r plant yn yr iaith Gymraeg a diwallu anghenion unigol y plant.

Mae'r arweinydd yn gweithio'n agos gyda chadeirydd y pwyllgor rheoli. Mae'r cadeirydd yn ymwelydd rheolaidd â'r lleoliad ac yn ymwybodol iawn o'r safonau sy`n cael eu cyflawni. Mae ei chyfranogiad yn hanfodol i lwyddiant y lleoliad. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cadw mewn cysylltiad yn aml ac yn rhoi cymorth effeithiol i'r lleoliad. Mae hyn yn arfer dda.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad wedi cael eu rhoi ar waith ond oherwydd y graddfa amser byr ers apwyntiad yr arweinydd, nid ydynt wedi cymryd lle hyd yn hyn.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth glir o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r cyfarfodydd staff rheolaidd a`r trafodaethau anffurfiol ar ôl i`r plant adael wedi galluogi'r arweinydd i ddod yn gyfarwydd â'r lleoliad.

Mae'r arweinydd wedi cynhyrchu hunan-ddadansoddiad manwl ar y cyd gyda'i chydweithwyr ac athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae'r hunanarfarniad yn seiliedig ar feini prawf Estyn ac yn darparu cyswllt â`r sail dystiolaeth. Mae'r arweinydd wedi nodi meysydd i'w gwella yn y cynllun datblygu, gan gynnwys graddfa amser.

Mae`r lleoliad wedi cael ei fonitro'n rheolaidd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a than yn ddiweddar gan Swyddog Datblygu Mudiad Meithrin.

Mae'r arweinydd yn rhoi ystyriaeth dda i farn rhieni ac yn ymgorffori eu dymuniadau hyd y bo modd. Mae'r pwyllgor rheoli hefyd yn gefnogol iawn ac yn gwneud cyfraniad hynod effeithiol at ddatblygiad y lleoliad.

Mae`r ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant priodol gan gynnwys diogelu plant ac addysgu'r Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn cael canlyniad buddiol ar gyflawniad a lles y plant. Mae'r holl staff yn awyddus i gynnal eu cymhwysedd proffesiynol ac fel canlyniad yn awyddus i gael hyfforddiant pellach ar gyfer addysgu llythrennedd a rhifedd yn y cwricwlwm newydd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaid sy'n cyfrannu'n effeithiol at ansawdd y ddarpariaeth ac i ddatblygiad y plant.

Mae perthynas werthfawr a buddiol yn bodoli rhwng staff a rhieni`r lleoliad. Mae gwybodaeth berthnasol yn cael ei darparu ar eu cyfer trwy sgyrsiau anffurfiol, llythyrau rheolaidd ac ar hysbysfwrdd yn y cyntedd. Mewn trafodaeth, mae rhieni yn

adrodd eu boddhad llwyr â`r lleoliad ac yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored a'r cyfleoedd rheolaidd i drafod datblygiad eu plant gyda'r arweinydd a'r ymarferwyr.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau gwerthfawr gydag Ysgol Mynydd Bychan ac mae`r plant yn dod yn gyfarwydd â'r athrawes feithrin cyn iddynt drosglwyddo. Mae hyn yn hwyluso'r profiadau pontio ar gyfer y plant wrth iddynt ddechrau yn eu hysgol newydd.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'i safle tuag at ganol y ddinas. Mae hyn yn eu galluogi i elwa ar agosrwydd nifer o berfformiadau, fel cyngherddau Nadolig i'r plant. Mae'r orsaf reilffordd gerllaw wedi galluogi bod ymweliadau yn cael eu gwneud i leoliadau glan môr. Mae'r parc lleol hefyd yn darparu ar gyfer ymweliadau deniadol sy`n dangos newid tymhorol. Mae siopau lleol yn galluogi plant i ddewis bwydydd iach ar gyfer amser byrbryd.

Mae'r lleoliad hefyd yn elwa o gyngor ac awgrymiadau gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaid sy'n cyfrannu'n effeithiol at ansawdd y ddarpariaeth ac i ddatblygiad y plant.

Mae perthynas werthfawr a buddiol yn bodoli rhwng staff a rhieni`r lleoliad. Mae gwybodaeth berthnasol yn cael ei darparu ar eu cyfer trwy sgyrsiau anffurfiol, llythyrau rheolaidd ac ar hysbysfwrdd yn y cyntedd. Mewn trafodaeth, mae rhieni yn adrodd eu boddhad llwyr â`r lleoliad ac yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored a'r cyfleoedd rheolaidd i drafod datblygiad eu plant gyda'r arweinydd a'r ymarferwyr.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau gwerthfawr gydag Ysgol Mynydd Bychan ac mae`r plant yn dod yn gyfarwydd â'r athrawes feithrin cyn iddynt drosglwyddo. Mae hyn yn hwyluso'r profiadau pontio ar gyfer y plant wrth iddynt ddechrau yn eu hysgol newydd.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'i safle tuag at ganol y ddinas. Mae hyn yn eu galluogi i elwa ar agosrwydd nifer o berfformiadau, fel cyngherddau Nadolig i'r plant. Mae'r orsaf reilffordd gerllaw wedi galluogi bod ymweliadau yn cael eu gwneud i leoliadau glan môr. Mae'r parc lleol hefyd yn darparu ar gyfer ymweliadau deniadol sy`n dangos newid tymhorol. Mae siopau lleol yn galluogi plant i ddewis bwydydd iach ar gyfer amser byrbryd.

Mae'r lleoliad hefyd yn elwa o gyngor ac awgrymiadau gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr  arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |